wavehill ymchwil gwerthuso arolygon research evaluation surveys

# Dyfodol Llwyddiannus:

Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru

# Adroddiad ar ymatebion i'r Sgwrs Fawr

Adroddiad i Lywodraeth Cymru

Mehefin 2015

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Wavehill Ltd ar ran Llywodraeth Cymru.

**Awduron yr adroddiad**
Llorenc O'Prey, Yasmin Jennings, Polly Sills-Jones, Paula Gallagher ac Isabella Boorman

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad hwn at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com) yn y lle cyntaf

**Wavehill Ltd**
21 Sgwâr Alban
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0DB

Ffôn: 01545 571711
gwefan: wavehill.com
e-bost: info@wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets

ISBN digidol 978 1 4734 3769 2
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2015
WG25857

# Cynnwys

Crynodeb .......... 2

**1. Prif ganfyddiadau** .......... 0

**1.1 Dibenion y cwricwlwm newydd** 0

**1.2 Strwythur y cwricwlwm newydd** 3

**1.3 Addysgeg y cwricwlwm newydd** 8

**1.4 Y broses asesu** 12

**1.5 Casgliadau** 15

**2. Methodoleg** .......... 17

**2.1 Cynnal y Sgwrs Fawr** 17

**2.2 Nodweddion yr ymatebwyr** 17

**2.3 Dadansoddi'r ymatebion** 18

# Crynodeb

Cafodd *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2015 ac ynddo ceir adolygiad cynhwysfawr o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Gan ddefnyddio barn, pryderon a dyheadau pobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt, roedd yr Adolygiad am gyfleu gweledigaeth o ddyfodol addysg o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol Pedwar. Gwnaeth yr Adolygiad nifer o argymhellion ymarferol yn amlinellu sut y gellid gwireddu'r weledigaeth yn ymarferol.

Gan fod goblygiadau pellgyrhaeddol i addysgu, dysgu ac asesu, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael gwybod a oedd pobl yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r egwyddorion a'r argymhellion yn *Dyfodol Llwyddiannus*. Lansiodd Llywodraeth Cymru y Sgwrs Fawr ym mis Mawrth eleni i fod yn fforwm i drafod. Gwahoddwyd y rheiny â diddordeb mewn addysg, gan gynnwys rhieni, athrawon, arweinwyr ysgolion, busnesau a'r gymuned ehangach, i gyfrannu eu barn a'u syniadau.

Roedd cam cyntaf y Sgwrs Fawr yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac fe'i hyrwyddwyd yn eang. Trwy gyfuniad o sioeau teithiol, gweithdai, gweminar, a holiadur ar-lein, gofynnwyd i bobl a oeddent yn cytuno â phwyslais a chyfeiriad cyffredinol yr Adolygiad. Daeth y cam cyntaf i ben ar 8 Mai, gan dderbyn 639 o ymatebion gan amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau.

*Ffigwr 1: Nifer yr ymatebion yn ôl grŵp rhanddeiliaid:*

| Ymatebydd | Nifer |
|---|---|
| Rhiant/gofalwr | 135 |
| Dysgwr | 8 |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Cynradd) | 29 |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Uwchradd) | 10 |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Cynradd) | 216 |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Uwchradd) | 43 |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Arbennig) | 7 |
| Corff Llywodraethu | 6 |
| Llywodraethwr | 10 |
| Consortiwm Rhanbarthol | 12 |
| Undeb Athrawon | 6 |
| Awdurdod Lleol | 16 |
| Awdurdod Esgobaethol | 1 |
| Coleg Addysg Bellach | 5 |
| Sefydliad Addysg Uwch | 7 |
| Darparwr Hyfforddiant Preifat | 5 |
| Busnes | 15 |
| Grwpiau Eraill â Diddordeb | 65 |
| Rôl yn Llywodraeth Cymru | 12 |
| Heb roi ateb | 31 |
| Cyfanswm | 639 |

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ymatebion cam cyntaf y Sgwrs Fawr. Mae'n cyflwyno dadansoddiad o natur, cynnwys a graddau barn yr ymatebwyr tuag at yr argymhellion. Mae'r canfyddiadau wedi cael eu bwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt ystyried ac ymgorffori barn yr ymatebwyr yn natblygiad parhaus y cynigion.

Ym Mhennod 2 ar dudalen 15, ceir amlinelliad ynghylch sut y cynhaliwyd y Sgwrs Fawr, pwy wnaeth ymateb, a'r ffordd y cafodd yr ymatebion eu dadansoddi a'u hadrodd.

**Prif Negeseuon yr Ymatebwyr**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn croesawu pwyslais a chyfeiriad cyffredinol yr argymhellion yn *Dyfodol Llwyddiannus*. Roedd ymatebwyr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r dibenion addysg sydd yn yr Adolygiad, a llawer ohonynt yn credu eu bod yn cynnig sylfaen gadarn i ystyried y cwricwlwm. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i brif gynnwys yr argymhellion ynghylch y cwricwlwm a'r trefniadau asesu.

Roedd y cytuno hwn yn deillio, yn rhannol, o'r cyfyngiadau y tybir sydd yn y cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol, a'r ymatebwyr yn credu bod angen diwygio'r rheiny. Ystyriai llawer fod y cwricwlwm presennol yn rhy seiliedig ar gynnwys a'i fod yn orlawn, a bod asesu i raddau helaeth wedi'i ysgogi gan atebolrwydd, yn hytrach na dysgu.

O ran nifer o argymhellion, roedd yr ymatebwyr am gael eglurhad ynghylch yr union fanylion sut y byddai'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Roedd pryder ynghylch y cydbwysedd rhwng gwybodaeth am bwnc penodol a'r cymwyseddau yn y cynigion, a sut y byddai'r cwricwlwm newydd yn cysylltu ag asesu cenedlaethol, megis TGAU.

Er mwyn ei weithredu yn effeithiol, teimlai ymatebwyr y byddai'n rhaid ystyried, ymgynghori a chynllunio'r cwricwlwm newydd yn ofalus, yn ogystal â sicrhau digon o amser, adnoddau a chymorth iddo.

# 1. Prif ganfyddiadau


Derbyniodd y Sgwrs Fawr nifer fawr o ymatebion, gan ddangos cryfder teimladau a phwysigrwydd addysg i bobl yng Nghymru. Roedd y Sgwrs wedi esgor ar gyfraniadau o bob rhan o'r gymuned addysg a thu hwnt. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i ymatebwyr i holi eu barn am yr argymhellion a nodwyd yn *Dyfodol Llwyddiannus.* Yma, mae'r adroddiad yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion ynghylch pob un o'r prif feysydd sy'n cael sylw yn yr Adolygiad, sef:

- Dibenion y cwricwlwm newydd
- Strwythur y cwricwlwm newydd
- Addysgeg y cwricwlwm newydd, ac
- Y broses asesu.

## 1.1 Dibenion y cwricwlwm newydd

***Crynodeb o'r Argymhellion***

Fel man cychwyn, aeth yr Adolygiad ati i ddiffinio'r hyn a ddylai fod yn nodau a dibenion addysg. Gallai casgliad clir o egwyddorion canolog fod yn sail i ddiwygio'r drefn addysgol yn y dyfodol, gan lywio penderfyniadau yn ymwneud â chyfansoddiad a chyflwyno'r cwricwlwm, yn ogystal ag asesu. I gloi, argymhellodd yr Adolygiad y dylai addysg fod â'r diben o gefnogi pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu i fod y canlynol:




I gael rhagor o wybodaeth, gweler tudalennau 29 a 30 o *Dyfodol Llwyddiannus*.

***Crynodeb o'r Ymatebion***

Roedd cefnogaeth gref iawn gan fwyafrif yr ymatebwyr i'r pedwar diben canolog a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*. Roedd ymatebwyr yn croesawu'r dull cyfannol tuag at addysg a geir yn y dibenion hyn.

> *'Rydym yn cefnogi cael diben wrth WRAIDD datblygu'r cwricwlwm, ei strwythur, yr asesu a'r system adrodd. Mae'r pedwar diben hyn yn adlewyrchu'r syniadau oedd gan athrawon/ysgolion yn gyffredinol a syniadau'r rhieni. Mae cydbwysedd da ynddynt ac ymddengys eu bod yn cynnwys pob agwedd y byddem yn gobeithio ei weld.'*

Rhieni ac Athrawon, Ymateb Gweithdy 48

Roedd y gefnogaeth i'r dibenion yn deillio, yn rhannol, o gyfyngiadau y tybir sydd yn y cwricwlwm presennol. Awgrymodd ymatebwyr fod y dibenion yn rhoi mwy o bwyslais a ffocws ar agweddau ar addysg y teimlent sy'n bwysig, ond nad ydynt i'w cael yn y trefniadau presennol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg parthed cynnwys unigolion iach, hyderus:

> *'Rydym yn falch fod y pedwar diben addysg sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad yn rhoi lle blaenllaw i'r angen i sicrhau bod y broses addysg yn cynhyrchu unigolion iach a hyderus ac yn cydnabod pwysigrwydd gweithgarwch corfforol i gyflawni'r nod hwn.'*

Sefydliad, Ymateb 3947836629

> *'Rydym hefyd felly yn croesawu'n fawr gydnabyddiaeth a phwyslais yr Adolygiad ar 'les' fel rhan sylfaenol o jig-so addysg gyfannol plentyn ac rydym yn cytuno â'r angen i newid y cwricwlwm i gynrychioli hyn yn well.'*

Sefydliad, Ymateb E-bost 20

Pan ofynnwyd a yw'r dibenion hyn yn rhoi'r sail gywir i ddatblygu'r cwricwlwm yn y dyfodol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno. Ymhlith gweithwyr proffesiynol addysg, y canfyddiad cyffredinol ynghylch y dibenion oedd:

> *'heb unrhyw amheuaeth, dyma'r hyn y dylai pob athro/athrawes geisio'i feithrin yn y bobl ifanc maent yn eu haddysgu.'*

Athro, Ymateb 3844360168

Roedd y teimlad hwn wedi'i ategu hefyd gan lywodraethwyr ysgol:

> *'[Rydym] yn cytuno bod angen gwella'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion ein myfyrwyr yn y dyfodol. Mae'r argymhellion yn arloesol, yn flaengar ac yn edrych fel petaent yn seiliedig ar egwyddorion addysgol a gwaith ymchwil cadarn.'*

Llywodraethwyr Ysgol, Ymateb 3950691943

Er bod cefnogaeth aruthrol, roedd rhai ymatebwyr wedi codi pryderon ynghylch sut y byddai'r egwyddorion yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr, er enghraifft, y byddai ymdeimlad cyffredinol y dibenion yn cael eu tanseilio yn ymarferol oni bai y ceir diwygio sylweddol, yn enwedig o ran trefniadau asesu:

> '*Ar yr olwg gyntaf mae'r rhain yn swnio'n ddiddorol, fodd bynnag, mae'r pwysau ar blant i gyflawni yn gwrthdaro ag unigolion iach, hyderus gan ei bod yn dod yn amlwg fod pryder disgyblion yn cynyddu*.'

Athrawes, Ymateb 3858649435

Roedd yn amlwg o gyfraniadau ymatebwyr i'r Sgwrs fod pobl yn dehongli'r dibenion mewn ffyrdd gwahanol. Roedd nifer fach o ymatebwyr, er enghraifft, yn credu nad oedd y dibenion yn rhoi digon o bwyslais ar rai meysydd, megis hyrwyddo ysbrydolrwydd plant.

> *'Maen nhw'n swnio'n dda, ond y manylion yw popeth a sut y byddant yn cael eu dysgu a'u gweithredu mewn gwirionedd gan athrawon... Gan fod y datganiadau yn gyffredinol, maent yn agored i ystod o ddehongliadau ac amrywiadau wrth eu rhoi ar waith. Gall hyn fod yn gadarnhaol ond gall hefyd fod yn negyddol.'*


Ymgynghorydd Addysg, Ymateb 3949942088

Dirnadaeth gyffredinol mwyafrif yr ymatebwyr, fodd bynnag – hyd yn oed ymhlith y rhai yn mynegi pryderon – oedd bod y dibenion yn cynnig sail ddefnyddiol i ystyried strwythur a chyflwyno'r cwricwlwm yn y dyfodol.

## 1.2 Strwythur y cwricwlwm newydd

***Crynodeb o'r Argymhellion***

Wrth feddwl am sut i hyrwyddo a chyflawni'r dibenion addysg drwy gynllun y cwricwlwm, argymhellodd yr Adolygiad y dylid datblygu un strwythur i fod yn sail i addysgu a dysgu rhwng 3 a 16 oed. Awgrymodd yr Adolygiad y dylid cael chwe Maes Dysgu a Phrofiad:




Nododd yr Adolygiad hefyd dri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd i roi sylfaen gadarn i ddysgu, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Dylid ymgorffori cyfleoedd i ddatblygu'r cymwyseddau hyn ar hyd y chwe Maes Dysgu a Phrofiad.




Yn cydredeg â'r tri chymhwysedd trawsgwricwlaidd, amlinellodd yr Adolygiad bedwar 'sgìl ehangach' y dylid eu hymgorffori yn y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, sef:

- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Cynllunio a threfnu
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Effeithiolrwydd personol

Roedd yr Adolygiad hefyd yn cyflwyno awgrymiadau ynghylch sut y dylai plant a phobl ifanc symud ymlaen drwy'r cwricwlwm, ac ar ba gyflymder. Er mwyn cael cydlyniad drwy gydol addysg plentyn, er enghraifft, argymhellodd yr Adolygiad y dylai'r cwricwlwm gael ei drefnu ar ffurf continwwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed heb gyfnodau na chyfnodau allweddol. Cyniga'r Adolygiad y dylid cael camau cynnydd yn eu lle, a phob cam wedi'i gefnogi gan ystod o ddeilliannau cyflawniad.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler tudalennau 38 i 56 o *Dyfodol Llwyddiannus*.

***Crynodeb o'r Ymatebion***

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gyffredinol yn croesawu'r cynigion. Roedd cefnogaeth eang i rôl llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn y cwricwlwm, a'r pwyslais ar ddarparu cyfleoedd i ddatblygu'r rhain ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad:

> *'Mae'n gwneud synnwyr llwyr! Dylai pob dysgu fod yn drawsgwricwlaidd, o wneud hynny bydd plant yn gallu ymarfer eu sgiliau newydd a'u hymgorffori. Mae addysgu sgiliau ar ei ben ei hun yn afrealistig, mae bywyd yn drawsgwricwlaidd!'*

Athro, Ymateb 3853490054

Roedd cryfder y teimlad hwn yn deillio, yn rhannol, o'r canfyddiad cyffredinol nad yw'r Cwricwlwm Cenedlaethol bellach yn adlewyrchu'r byd y mae plant a phobl ifanc yn byw ynddo. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran cymhwysedd digidol, gan fod llawer yn teimlo bod diffyg yn hyn o beth o dan y trefniadau presennol. Credai rhai bod y cwricwlwm presennol yn rhy llawn ac yn seiliedig ar y cynnwys. Roedd ymatebwyr yn cydnabod yr angen i symleiddio'r cynnwys, sefydlu mwy o gysylltiadau trawsgwricwlaidd, a sicrhau bod y cynnwys yn ddiddorol, yn afaelgar ac yn berthnasol.

Roedd athrawon yn crybwyll yn aml y byddai'r Meysydd Dysgu a Phrofiad arfaethedig yn galluogi addysgu a dysgu mwy penodol a chydlynol, ar yr un pryd hefyd â sicrhau bod y cwricwlwm yn rhwyddach ei weithredu. Roedd ymatebwyr o'r farn fod gan y cynigion y potensial i oresgyn natur gyfyngol y cwricwlwm presennol, gan ganiatáu mwy o greadigrwydd a pherchnogaeth dros y broses ddysgu:

> *'Fel ymarferwyr, byddai'n helpu i leddfu cwricwlwm sydd ar hyn o bryd yn teimlo fel petai'n 'filltir o led ac yn fodfedd o ddwfn'. Mae ffocws ar ddarparu ansawdd yn hytrach na helaethrwydd drwy gyfuno meysydd i'w weld yn ffordd dda ymlaen.'*

Athrawes, Ymateb 3856104164

Ymhellach, roedd athrawon sydd eisoes wedi gwreiddio Meysydd Dysgu a Phrofiad yn eu hystafelloedd dosbarth yn deall gwerth dull o'r fath:

> *'Mae Meysydd Dysgu wedi gweithio'n dda yn y Cyfnod Sylfaen ac mae'r [Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd] wedi'i gysylltu'n glir â'r cwricwlwm hwn. Yn y system bresennol, mae'r newid wedyn yn yr arddulliau dysgu yn ystod [Cyfnod Allweddol 2] a [Cyfnod Allweddol 3] wedi bod yn rhy 'wahanol'. Mae dull sy'n seiliedig ar destunau ac sy'n ymgorffori'r meysydd dysgu yn gweithio'n dda a dylid parhau â hwn ymhellach yn y system addysg.'*

Athro, Ymateb 3905242144

Trwy'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, ceisiai'r Adolygiad fynd i'r afael â phryderon ynghylch yr adrannu tybiedig sydd wedi bod mewn addysgu a dysgu, gan annog athrawon i weithio'n greadigol ac yn gydweithredol ar draws y pynciau. Soniwyd am fanteision mwy o gysylltiadau ledled y cwricwlwm gan athrawon:

> *'Rydw i'n cytuno'n gryf â'r dull hwn. Yn fy mhrofiad i fel dysgwr fy hun, a hefyd fel athrawes 11-18 oed, mae dysgu yn rhywbeth rydych chi'n gallu ei ddatblygu'n effeithiol trwy ddull rhyngddisgyblaethol sy'n galluogi trosglwyddo ac ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth ar draws ystod pynciau ac sy'n gwneud dysgu yn fwy perthnasol a gwerthfawr yn gyffredinol.'*

Athrawes, Ymateb 3853366944

Gan gydnabod gwerth ac effeithiolrwydd canfyddedig y Cyfnod Sylfaen, atebodd athrawon yn aml eu bod yn teimlo y byddai'r cynigion yn adeiladu ar y llwyddiant hwn. O'r safbwynt hwn, gallai'r argymhellion adeiladu ar y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a thrwy hynny roi profiad addysgol mwy cydlynol ac ystyrlon i blant wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

> *'Fel athrawes Cyfnod Allweddol 2, rydw i'n cofio'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno gyda 7 maes dysgu ac yn gwawdio'r syniad hwnnw! Nawr fel athrawes newydd drosi i'r Cyfnod Sylfaen dyma'r ateb yn sicr! Llai o feysydd i ganolbwyntio arnynt, ond mwy o bosibilrwydd ar gyfer dysgu dyfnach…'*

Athrawes, Ymateb 3907714788

Roedd nifer o gwestiynau a phryderon hefyd yn codi o'r ymatebion. Cafwyd cryn drafodaeth ynghylch prif gynnwys y cwricwlwm arfaethedig. Roedd ymatebwyr o amrywiaeth o gefndiroedd yn awyddus i bwysleisio pa mor bwysig yw pwnc penodol yn y cwricwlwm arfaethedig, gan gynnwys addysg gorfforol neu addysg grefyddol. Roedd ysgolion a grwpiau ffydd, er enghraifft, am gael sicrwydd y gallent ymgorffori ffocws ysbrydol ar draws y cwricwlwm.

Nid oedd yr holl athrawon yn gefnogol i'r egwyddor o grwpio pynciau gyda'i gilydd yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Teimlai nifer fach o'r ymatebwyr y byddai Meysydd Dysgu a Phrofiad yn lleihau pwysigrwydd disgyblaeth neu bwnc penodol:

> *'Mae gwahanu pynciau'r cwricwlwm i chwe maes dysgu yn fater o gryn bryder... dywedodd athrawon hanes ysgolion uwchradd yn glir wrthym fod hunaniaeth pwnc yn allweddol...* [a] *datgan eu bod yn pryderu, petai hanes yn dod yn rhan o faes dysgu ehangach "Dyniaethau", y byddai peth o drylwyredd, hunaniaeth a statws hanes fel disgyblaeth yn cael ei golli.'*

Sefydliad Addysg, Ymateb 3949974424

Codwyd hefyd y mater o gydbwysedd rhwng gwybodaeth am bwnc a chymwyseddau. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn fod yr argymhellion yn rhoi gormod o bwyslais ar sgiliau a chymwyseddau ar draul gwybodaeth am bwnc. Roedd rhai yn meddwl y gallai hyn arwain at golli trylwyredd academaidd:

> *'Rwy'n cytuno y gall addysgu trawsgwricwlaidd fod yn fuddiol iawn, ond mae'n rhaid ei wneud yn ofalus iawn a rhaid inni beidio â cholli trylwyredd academaidd ym mhob un o'r pynciau unigol yn sgil integreiddio... rwy'n credu bod angen llawer o amser a meddwl ynghylch sut i wneud hyn yn fwyaf effeithiol os yw'n mynd i weithio, ond rwy'n cytuno mewn egwyddor.'*

Athro, Ymateb 3891776055

Roedd ymatebwyr yn credu hefyd y byddai trefnu'r cwricwlwm i Feysydd Dysgu a Phrofiad yn her i rai athrawon, yn enwedig o ran gwneud cysylltiadau ar draws y cwricwlwm. Roedd rhai'n dehongli'r cynigion fel troi cefn ar drefniadau addysgu presennol, gan nodi na fyddai gan athrawon pwnc unigol yr hyder efallai i gyflawni'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. O'r safbwynt hwn, byddai addysgu effeithiol yn gofyn am ddigon o adnoddau, cefnogaeth, hyfforddiant, ac amser er mwyn ymgorffori a chyflawni'r addewid sydd yn y cynigion.

Roedd ansicrwydd hefyd ymysg rhai ynghylch sut y byddai'r strwythur arfaethedig yn cysylltu'n gydlynol ag arholiadau, gan gynnwys TGAU a Safon Uwch, ac ymlaen i Addysg Bellach neu Uwch. Roedd pryder y byddai'n anodd dod o hyd i gydbwysedd rhwng paratoi ar

gyfer y mathau hyn o arholiadau pwnc penodol a rhoi lle i ddull sy'n pylu'r ffiniau rhwng pynciau.

Daeth nifer o safbwyntiau gwahanol i'r amlwg gan ymatebwyr ynghylch lle'r Gymraeg yn strwythur y cwricwlwm. Gan nodi manteision diwylliannol, gwybyddol ac ymarferol dysgu Cymraeg fel iaith fyw, argymhellodd yr Adolygiad gadw'r Gymraeg yn elfen orfodol yn y cwricwlwm. Er mai cymharol ychydig o bobl a gynigodd sylwadau ar yr argymhellion hyn, roedd y rheiny a wnaeth wedi mynegi safbwyntiau cryf.

Wrth dynnu sylw at bwysigrwydd dwyieithrwydd i bobl ifanc ac i Gymru, teimlai nifer fach o ymatebwyr fod y ddarpariaeth bresennol yn annigonol gan weld posibiliadau a chyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg yn argymhellion yr Adolygiad:

> *'Mae cyfle enfawr yng Nghymru i gynyddu sgiliau a galluoedd y plant trwy gryfhau'r cwricwlwm iaith Gymraeg i bob plentyn, nid dim ond y rhai sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.*

Rhiant, Ymateb 3952887972

Ar y llaw arall, teimlai nifer fach o ymatebwyr fod heriau ymarferol i addysgu Cymraeg mewn ysgolion:

> *'Rhaid i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg gael proffil uchel yn ein hysgolion, ond mae'n rhaid i hyn fod yn realistig... Mae'n rhaid sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn y cwricwlwm ond dylem gael gwared â'r angen i osod targedau ac asesu'r iaith er mwyn i'r profiad bod yn bleserus yn hytrach na chael ei orfodi ar blant.'*

Athrawes, Ymateb 3947112101

Rhaid inni fod yn ofalus i beidio â gorgynrychioli'r safbwyntiau hyn. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi cynnig sylw ar rôl yr iaith Gymraeg yn y cwricwlwm.

At ei gilydd, cafodd strwythur arfaethedig y cwricwlwm newydd dderbyniad da iawn gan bob grŵp o ymatebwyr, gan gynnwys rhieni ac athrawon. Roedd nifer o amodau i'r gefnogaeth hon, gan gynnwys rhai eisiau eglurhad am y cydbwysedd rhwng gwybodaeth am bwnc a sgiliau a chymwyseddau, a sut y byddai'r cwricwlwm newydd yn cysylltu'n gydlynol ag arholiadau cenedlaethol.

## 1.3 Addysgeg y cwricwlwm newydd

***Crynodeb o'r Argymhellion***

Mae addysgeg yn cyfeirio at ddamcaniaeth addysgu a'i ymarfer, ac mae'n llywio sut y caiff cwricwlwm ei gyflwyno. Mae addysgeg yn bwysig oherwydd ei fod yn ffurfio profiadau dysgu plant a phobl ifanc yn yr ystafell ddosbarth.

Yn ôl yr Adolygiad, mae addysgu da yn gofyn am wybodaeth ac arbenigedd addysgol, am ystod eang o weithgareddau wedi'u dewis i gyd-fynd â deilliannau bwriadedig y dysgu, ac am y gallu i gyffroi ac ysbrydoli plant a phobl ifanc. Nid oedd yr Adroddiad, felly, yn argymell dulliau addysgu penodol, ond yn hytrach yn amlinellu egwyddorion pedagogaidd sy'n cefnogi'r pedwar diben, y cwricwlwm a'r trefniadau asesu a awgrymir.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Pennod 5 ar dudalen 63 *Dyfodol Llwyddiannus*.

***Crynodeb o'r Ymatebion***

Gofynnwyd i athrawon a ymatebodd i'r Sgwrs Fawr a oeddent yn cytuno â'r egwyddorion pedagogaidd cyffredinol yn *Dyfodol Llwyddiannus*. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r dull arfaethedig, gan deimlo ei fod yn cynnig adlewyrchiad cywir o ofynion addysgu da.

> *'Fy ymateb cyntaf yw eu bod yn egwyddorion da iawn, wedi'u cyflwyno'n dda ac ni allai unrhyw un mewn addysg anghytuno â nhw. Mae athrawon da yn poeni am eu dysgwyr mewn system lle mae'r ods yn gyson yn eich erbyn!'*

Athro, Ymateb 3858649542

Roedd yn amlwg o'r ymatebion fod llawer o athrawon yn credu bod y trefniadau a'r llwythi gwaith presennol yn effeithio'n negyddol ar eu gallu i addysgu'n effeithiol ac yn ysbrydoledig. Teimlai ymatebwyr fod y dull pedagogaidd arfaethedig, o gael ei weithredu'n effeithiol, yn rhoi mwy o ddisgresiwn a rheolaeth i athrawon dros yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn fod hyn yn beth da, a'i fod yn awgrymu hyder yng ngallu athrawon mewn galwedigaeth sydd fel petai â diffyg ffydd strwythurol ynddi yn ôl rhai.

> *'Rydw i'n credu y byddai hynny'n rhoi perchnogaeth ac ysbrydoliaeth i staff o ran y deunydd maent yn ei ddysgu.'*

Athrawes, Ymateb 3929745683

Teimlwyd yn gyffredinol y dylai athrawon gael mwy o ran wrth lunio'r cwricwlwm, yn enwedig os bydd arweiniad a chymorth priodol ar gael.

> *'Athrawon sydd yn y sefyllfa orau i roi gwybodaeth a chynghori ar sut y gellir gwella'r cwricwlwm, a'i strwythuro i wella'r canlyniadau i'n plant ar gyfer y dyfodol – bydd athrawon yn gwybod pa feysydd sydd angen eu datblygu er mwyn i'r holl ddisgyblion fod yn ddysgwyr llwyddiannus a chael eu paratoi at eu cam nesaf.'*

Athro, Ymateb: 3947792951

Croesawai llawer o ymatebwyr yr hyblygrwydd a welid i fanteisio ar eu gwybodaeth a'u harbenigedd i ddefnyddio eu barn broffesiynol. Teimlai rhai y gallai hyn hybu cryfderau athrawon, a'u galluogi i deilwra addysgu i ddewisiadau ac arddulliau dysgu unigolion. Byddai hyn yn galluogi athrawon i gyflwyno cyfleoedd dysgu mwy priodol a gafaelgar.

> *'Rydym yn croesawu cyfleoedd i athrawon gydweithio a chymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am gwricwlwm sy'n briodol i'w dysgwyr. Byddai'n ddefnyddiol cael cydbwysedd rhwng y rhyddid i ddatblygu creadigrwydd yr athrawon eu hunain a defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau yn erbyn gofynion fframwaith cwricwlwm gosodedig.'*

Athrawes, Ymateb: 3939816780

Soniodd nifer fach o ymatebwyr am y cydbwysedd rhwng ymreolaeth/rhyddid ar y naill law a chefnogaeth a chyfeiriad clir ar y llaw arall. Er mwyn bod yn effeithiol, teimlai rhai bod arweiniad a chyfeiriad clir yn angenrheidiol i helpu athrawon i ddeall a gweithredu'r diwygiadau arfaethedig.

> *'Rwy'n cytuno â'r dull mewn egwyddor ond gobeithio y bydd yn cael ei ledaenu'n gyson gyda strwythur pendant, ymarferol.'*

Athro, Ymateb 3856104540

Teimlwyd yn fwy cyffredinol y byddai'n rhaid cael adnoddau, cymorth, a chyfleoedd datblygu proffesiynol er mwyn helpu athrawon i ddatblygu'r hyder a'r galluoedd angenrheidiol i weithredu dull hynod newydd o addysgu a dysgu.

*'I mi, mae'r egwyddorion yn swnio fel yr hyn y mae athrawon da eisoes yn ei wneud ond bydd angen hyfforddiant ac arweiniad er mwyn i'r holl athrawon fod â'r set sgiliau i ddatblygu'r profiadau a'r arferion pedagogaidd hyn ar gyfer pob plentyn yng Nghymru.'*

Athrawes, Ymateb 3858659119

Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n anghyfforddus yn cael mwy o ymreolaeth/rhyddid, gan awgrymu y byddai'n well ganddynt strwythur cryfach a mwy o arweiniad, megis cynlluniau gwersi manwl. Roedd hyn mewn ymateb i'r canfyddiad gan rai athrawon y gallai'r argymhellion, wrth ganiatáu mwy o greadigrwydd, o bosibl roi mwy o bwysau ar amser athrawon:

*'Does dim digon o amser i fod yn greadigol – bydd yn rhaid i rai o'r gofynion presennol leihau'n sylweddol.'*

Athro, Ymateb 3947080708

Roedd rhai hefyd yn ystyried mwy o ryddid yn rhywbeth a allai o bosibl gynyddu'r anghysondeb mewn addysgu ledled Cymru:

*'Er ei bod yn dda cael rhywfaint o hyblygrwydd, rwy'n teimlo bod cael dulliau addysgu penodol wedi'u nodi mewn canllawiau i athrawon yn bwysig. Y broblem yn yr addysg yng Nghymru yw'r anghysondeb mewn addysgu, o fewn ysgolion, o ysgol i ysgol, ac o awdurdod lleol i awdurdod lleol. Mae'n hanfodol fod neges gyson yn cael ei rhoi i bawb yn y system addysg, fel arall bydd dehongliad unigol neu gredoau addysgol yn gallu effeithio ar ansawdd yr addysgu ac ar gyflwyno'r cwricwlwm…'*

Athro, Ymateb 3936474582

*'Ar lefel cynllun gwaith, pam fod cannoedd o ysgolion yn cymryd argymhellion ac yn eu dehongli yn wahanol gan greu llawer o waith ym mhob ysgol er y*

*byddai gweithgor arbenigol yn gallu datblygu cwricwla rhagorol a [Chynlluniau Gwaith] i sicrhau dilyniant yn HOLL ysgolion Cymru.'*

Athrawes, Ymateb 3853483857

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod y trefniadau presennol yn gallu tanseilio cyflwyno addysgu effeithiol a gafaelgar, ac y byddai mwy o ymddiriedaeth a pherchnogaeth dros gwricwlwm ac addysgeg yn gallu helpu yn hyn o beth. Teimlai rhai y byddai dull o'r fath yn gofyn am arweiniad clir a chefnogaeth effeithiol i sicrhau ansawdd a chysondeb ar draws y ddarpariaeth yng Nghymru.

## 1.4 Y broses asesu

***Crynodeb o'r Cynigion***

Mae'r Adolygiad yn cynnig cryfhau'r berthynas rhwng asesu a dibenion y cwricwlwm, ar yr un pryd ag annog ffocws ar asesu ar gyfer dilyniant a dysgu. Mae'r Adolygiad yn datgan y dylai trefniadau asesu:

- Alinio'r asesu â'r dibenion dysgu.
- Bod yn glir am y rhesymau dros asesu, a chynllunio ymlaen llaw ar gyfer y defnydd a wneir o'r canlyniadau asesu.
- Hyrwyddo'r defnydd o amrywiaeth fawr o dechnegau sy'n addas i'w diben.
- Cynnwys myfyrwyr yn eu hasesu eu hunain.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Pennod 6 ar dudalen 73 *Dyfodol Llwyddiannus*.

***Crynodeb o'r Ymatebion***

Roedd ymatebwyr, gan gynnwys rhieni ac athrawon, yn cytuno bod y trefniadau asesu presennol yn anfoddhaol ac yn cael effaith andwyol ar addysgu a dysgu.

> *'Mae'r cwricwlwm wedi symud yn rhy bell o addysg sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ac mae gormod o blant wedi dioddef oherwydd addysg sy'n seiliedig ar arholiadau. Rhaid i ni symud oddi wrth ddull sy'n addysgu ar gyfer prawf, a bod yn fwy hyblyg wrth ddod o hyd i ffyrdd o roi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i baratoi plant ar gyfer addysg bellach neu uwch neu fyd gwaith.'*

Rhiant: Ymateb 3869770776

Roedd y teimlad hwn yn cael ei ategu gan ystod amrywiol o ymatebwyr. Teimlai rhai bod y system bresennol yn blaenoriaethu asesu crynodol ac yn gosod baich sylweddol ar blant a phobl ifanc gyda '*gormod o lawer o addysgu at ddibenion arholiadau*'. Dywedodd nifer o athrawon hefyd eu bod yn teimlo wedi'u llethu gan y broses asesu. Roedd asesu, o'r safbwynt hwn, yn aml yn cael ei weld wedi'i lywio gan ddibenion atebolrwydd, yn hytrach nag ar gyfer dysgu:

> *'Credaf fod y pwyslais aruthrol ar ddarparu tystiolaeth ar gyfer atebolrwydd yn lladd yr holl greadigrwydd a morâl mewn ysgolion ac nid yw o reidrwydd yn*

*arwain at safonau gwell mewn addysgu a dysgu. Mae unrhyw beth sy'n rhoi mwy o bwyslais ar asesu i helpu cynnydd yn gam cadarnhaol.'*

Athro, Ymateb 3856108515

Roedd ymatebwyr yn croesawu'r cyfle i adolygu a diwygio'r trefniadau asesu. Cytunwyd yn gryf â'r ffocws cyffredinol ar asesu ar gyfer dilyniant sydd yn y cynigion.

*'Mae asesu i lywio'r dysgu yn arf gwerthfawr y byddai athrawon yn ei groesawu... Mae her fawr i awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn i sgwario'r cylch yn y system bresennol o fesurau atebolrwydd, ac mae'n rhaid i'r system hon symud tuag at ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu mewn ffordd fwy cynnil a pherthnasol.'*

Athrawes, Ymateb 3865226526

Cafwyd derbyniad da i'r syniadau o asesu *ysgafn ei gyffyrddiad* ac asesu *beth sy'n bwysig*. Roedd cefnogaeth hefyd i hunanwerthuso a doethineb athrawon, er bod ymatebwyr eraill yn poeni sut y byddai hyn yn cael ei fonitro i sicrhau dilyniant ar draws ysgolion. Dywedodd nifer o ymatebwyr hefyd os yw'r trefniadau newydd i weithio yna ni ddylent ychwanegu at lwyth gwaith athrawon.

Roedd gofyn sut yn union y byddai'r trefniadau asesu newydd yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol yn gwestiwn a ofynnwyd gan nifer fach o ymatebwyr. Awgrymodd rhai y byddai newid mewn asesu yn gofyn am newidiadau sylweddol yn null Estyn o arolygu ysgolion. Roedd argymhelliad yr Adolygiad ynghylch samplo ysgolion fel modd o asesu atebolrwydd wedi cael derbyniad da gan nifer fach yr ymatebwyr a gyfeiriodd at hyn. Tynnodd eraill sylw at werth y trefniadau presennol fel dull gwerthfawr o feincnodi gan fynegi pryderon ynghylch y gostyngiad posibl mewn data asesu y gellid ei gymharu drwy'r trefniadau newydd. O'r safbwynt hwn roedd oblygiadau pwysig i'r gallu i gymharu data asesu o ran sicrhau ansawdd ledled y ddarpariaeth.

*'Teimlai nifer fach o lywodraethwyr fod angen cael ffordd o gymharu cyn y cyfnod TGAU, mewn perthynas â gweddill y Deyrnas Unedig ac â'r byd yn ehangach.'*

Llywodraethwyr Ysgol, Ymateb 3950691943

Ar y cyfan, roedd canfyddiad cryf nad yw’r system bresennol yn addas i’r pwrpas, a bod pwyslais y cynigion ar asesu ar gyfer dysgu i’w groesawu. Dymunai’r ymatebwyr hefyd gael eglurhad a sicrwydd ynghylch sut y byddai hyn yn gweithio’n ymarferol, gan gynnwys materion fel sicrhau ansawdd.

## 1.5 Casgliadau

Roedd y cyfraniadau i'r Sgwrs Fawr wedi deillio o ystod eang o bobl ledled y gymuned addysg a thu hwnt. Ar draws pob grŵp o ymatebwyr, gan gynnwys rhieni ac athrawon, cytunwyd bod angen diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol. Roedd ymatebwyr yn cydnabod yr heriau y mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn ceisio mynd i'r afael â hwy.

Yr hyn sy'n codi o'r ymatebion yw cryn gefnogaeth i gwmpas a chyfeiriad cyffredinol yr Adolygiad. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, er enghraifft, wedi dweud eu bod yn cytuno â'r dibenion addysg a amlinellir yn yr Adolygiad, a llawer ohonynt yn credu bod y dibenion hyn yn sail ddefnyddiol i ystyried y cwricwlwm. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gefnogol i'r argymhellion ynghylch ad-drefnu'r cwricwlwm i Feysydd Dysgu a Phrofiad, yn ogystal â newid y pwyslais i asesu ar gyfer dysgu yn hytrach nag ar gyfer atebolrwydd.

Wrth feddwl am fanylion y cynigion, roedd ymatebwyr yn aml yn cyflwyno amodau i'w cefnogaeth. Roedd llawer o ymatebwyr am gael eglurhad neu sicrwydd ynghylch mater neu argymhelliad penodol. Roedd hyn yn fwyaf amlwg pan oedd yr ymatebwyr wedi myfyrio ar sut y byddai'r argymhellion i'w gweithredu yn ymarferol. Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd rhai argymhellion yn rhoi digon o bwyslais ar agwedd neu fater penodol. Roedd eraill o'r farn nad oedd yr Adolygiad yn mynd yn ddigon pell.

Wrth ystyried y broses bosibl o roi'r argymhellion ar waith, roedd yr ymatebwyr yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd cynllunio gofalus a digon o adnoddau i gefnogi ysgolion i ymgorffori'r cynigion:

> *'Mae'r [Corff Llywodraethol] yn cefnogi'r cwricwlwm a'r egwyddorion pedagogaidd fel yr amlinellwyd hwy, cyn belled ag y ceir adnoddau a chyllid digonol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.'*

Llywodraethwyr Ysgol, Ymateb 3950691943

Credai ymatebwyr hefyd y byddai ystyriaeth bellach, ymgynghori a chynllunio yn fuddiol wrth ddatblygu'r cynigion:

> *'Yr her yw mynd â phobl gyda chi – roedd llawer o'r drafodaeth ar ein bwrdd wedi canolbwyntio ar anawsterau gweithredu a'u rhoi ar waith yn hytrach na gwerth cynhenid y newidiadau.'*

Rhieni ac Athrawon, Ymateb Gweithdy 2

Roedd yn amlwg o’r ymatebion fod pobl wedi dehongli prif gynnwys rhai argymhellion mewn gwahanol ffyrdd. Ar adegau, mae’n bosibl fod yr ymatebwyr wedi deall amcanion a chwmpas casgliad penodol o argymhellion mewn ffyrdd na fwriadwyd. Roedd cryn amrywiaeth, er enghraifft, yn y ffordd yr oedd pobl wedi dehongli argymhellion yn ymwneud â’r Meysydd Dysgu a Phrofiad a rôl disgyblaethau pwnc. Byddai eglurhad ynghylch yr argymhellion hyn yn werthfawr i sicrhau bod trafodaethau’r dyfodol yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth gyffredin o’r cynigion.

# 2. Methodoleg

Mae'r bennod hon yn crynhoi sut y cynhaliwyd y Sgwrs Fawr, yn ogystal â sut y dadansoddwyd yr ymatebion dilynol. Mae'n amlinellu'r ffyrdd gwahanol y gwahoddwyd ymatebwyr i rannu eu barn, cyn mynd ati i ystyried pwy yn union a gyfrannodd. Aiff y bennod rhagddi i esbonio sut y cafodd yr ymatebion eu trin a'u dehongli, a sut y defnyddiwyd hynny yn y dadansoddiad terfynol a gyflwynir yn yr Adroddiad hwn.

## 2.1 Cynnal y Sgwrs Fawr

Gwahoddwyd ymatebwyr i'r Sgwrs Fawr i gyfrannu eu barn ar *Dyfodol Llwyddiannus* mewn sawl ffordd. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod pobl yn cael mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd. Roedd y gwahanol ddulliau yn cynnwys:

- 3 sioe deithiol
- gweithdai, gan gynnwys sesiynau wedi'u hanelu yn benodol at rieni a gofalwyr, a chynrychiolwyr busnes
- gweminar, a
- holiadur ar-lein

Er mwyn darganfod barn pobl yn y digwyddiadau ac ar-lein, gofynnwyd i ymatebwyr lenwi un o ddau holiadur byr. Roedd pob holiadur wedi'i ddatblygu i archwilio ystod o faterion yn ymwneud â'r Adolygiad o wahanol onglau. Bwriad yr holiadur cyntaf oedd i'w lenwi gan gynulleidfa gyffredinol, gan gynnwys rhieni, gofalwyr a dysgwyr, tra bod yr ail holiadur wedi'i anelu at bobl sy'n gweithio ym maes addysg, gan gynnwys athrawon a llywodraethwyr. Gofynnai'r holiaduron i ymatebwyr ystyried a rhoi sylwadau ar agwedd benodol ar yr Adolygiad neu'r argymhelliad. Roedd y cwestiynau yn agored er mwyn gwahodd atebion ansoddol a manwl.

## 2.2 Nodweddion yr ymatebwyr

Yn gyfan gwbl, derbyniodd y Sgwrs Fawr 639 o ymatebion unigryw gan amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau. Ynghyd â gofyn am eu barn a'u syniadau, gofynnwyd i ymatebwyr hefyd roi manylion eu safbwynt, gan gynnwys nodi a oeddent yn athro/athrawes, rhiant, neu'n cynrychioli sefydliad penodol. Roedd nifer yr ymatebwyr yn ôl grŵp rhanddeiliaid fel a ganlyn:

*Ffigwr 2: Nifer yr ymatebion yn ôl grŵp rhanddeiliaid:*

| Ymatebydd | Nifer |
|---|---|
| Rhiant/gofalwr | 135 |
| Dysgwr | 8 |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Cynradd) | 29 |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Uwchradd) | 10 |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Cynradd) | 216 |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Uwchradd) | 43 |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Arbennig) | 7 |
| Corff Llywodraethu | 6 |
| Llywodraethwr | 10 |
| Consortiwm Rhanbarthol | 12 |
| Undeb Athrawon | 6 |
| Awdurdod Lleol | 16 |
| Awdurdod Esgobaethol | 1 |
| Coleg Addysg Bellach | 5 |
| Sefydliad Addysg Uwch | 7 |
| Darparwr Hyfforddiant Preifat | 5 |
| Busnes | 15 |
| Grwpiau Eraill â Diddordeb | 65 |
| Rôl yn Llywodraeth Cymru | 12 |
| Heb roi ateb | 31 |
| Cyfanswm | 639 |

Roedd rhai ymatebion yn cynnwys crynodeb o safbwyntiau a fynegwyd gan grwpiau, megis cyrff llywodraethu ac undebau athrawon. Roedd hyn hefyd yn cynnwys rhai ymatebion gan rieni ac athrawon a oedd wedi dod at ei gilydd fel grŵp i gyflwyno ymateb. O'r herwydd, dylid ystyried y ffigyrau hyn i fod yn rhai dangosol yn hytrach na datganiad diffiniol ynghylch union nifer y bobl a gyfrannodd at y Sgwrs Fawr.

Yn ogystal â'r ymatebion a roddwyd drwy'r holiadur ar-lein a'r gweithdai, mynychodd 255 o bobl y digwyddiadau rhanbarthol, a mewngofnododd 72 o bobl i'r gweminar ac fe'i lawrlwythwyd gan 379 arall.

## 2.3 Dadansoddi'r ymatebion

Esgorodd y Sgwrs Fawr ar gasgliad mawr iawn o ddata ansoddol. Er mwyn gwneud synnwyr o'r holl ddata hwn, defnyddiodd yr awduron yn gyntaf oll strategaeth godio agored i nodi categorïau gwahanol i'r ymatebion. Roedd hyn yn canolbwyntio ar ddeall y syniadau penodol yn nhestun pob ateb gan ymatebydd.

Yna aeth yr awduron ati i ailddarllen yr ymatebion er mwyn dechrau datblygu fframwaith thematig ehangach, gan nodi patrymau yn yr ymatebion ar draws y set ddata. Roedd hyn yn galluogi'r awduron i nodi themâu a godai, yn ogystal â dechrau archwilio pa mor aml yr oedd y thema honno yn codi ar hyd y set ddata gyfan. Dyma'r fframwaith oedd yn sail yr Adroddiad hwn.

Wrth gyflwyno adroddiad am y Sgwrs Fawr, nod yr awduron oedd rhoi disgrifiad thematig cyfoethog o'r safbwyntiau trwy leisiau'r ymatebwyr. Y dadansoddiad thematig hwn oedd yn rhoi strwythur i'r adroddiad, tra bod dyfyniadau yn cael eu defnyddio i ddangos ehangder y materion a godwyd gan ymatebwyr.

Wrth adrodd sawl gwaith yr oedd safbwynt penodol yn codi, credid y byddai nodi canrannau neu ba mor aml y mae'n digwydd yn gamarweiniol o ystyried natur y data a'r problemau yn ymwneud â phosibilrwydd y duedd i hunanddethol. Mewn achosion lle credid ei bod yn bwysig tynnu sylw at deimladau cryf ynghylch safbwynt penodol, defnyddiwyd y naratif i roi pwyslais. Roedd hyn yn cynnwys '*mwyafrif yr ymatebwyr*' mewn achosion lle mynegodd dros 90 y cant safbwynt penodol, a '*nifer fach o ymatebwyr*' mewn achosion lle mynegodd llai na 10 y cant yr un farn. Defnyddiwyd y system hon yn gyson drwy'r adroddiad.

Os oes gennych ragor o gwestiynau ynghylch sut y cafodd y Sgwrs Fawr ei chynnal, neu'r ffordd y dadansoddwyd yr ymatebion, mae croeso i chi gysylltu â'r prif awdur.